# CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Ebrill, 2023

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd C.P. Franks, Dr. I.J. Johnson a N.C. Thomas.

## C289 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei Ffrydio'n Fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo er mwyn gallu ei wylio yn y dyfodol.

Gofynnodd i’r holl gyfranogwyr ‘fudo’ eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwyr yn dymuno siarad, y dylent godi eu llaw (i gael eu gweld ar y sgrîn) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

## C290 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

## C291 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

## C292 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C293 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2022/23 A CHYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIOL ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (AG/PA) (CRAFFU – Y GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 3 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr, 2022 yn cyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 y Cyngor, sydd yn cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg yn ogystal â chyflwyno'r cynnydd hyd yn hyn yn mynd i'r afael ag argymhellion presennol a chynigion gwella gan reoleiddwyr allanol.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad wedi ei ystyried a'i nodi gan y pum Pwyllgor Craffu fel y trafodwyd ym mharagraff 2.6 o'r adroddiad.

O ran yr hyn a gyflawnwyd, cyfeiriodd yr Arweinydd at y Cyngor yn ennill y wobr "Cyflawni Gwerth Cymdeithasol" yng ngwobrau Ystadau Cymru a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr am ei waith yn ffurfio partneriaeth â Chymdeithas Pentref Aberogwr y cyfeiriwyd ato yn Atodiad B yn ogystal â'r cynnydd yn ymwneud â’r rhaglen trosi goleuadau stryd LED i gynyddu canran y goleuadau stryd a drosglwyddwyd i LED fel maes ffocws a gwelliant yn y dyfodol. Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod adnewyddu goleuadau stryd Fictorianaidd ym Mhenarth wedi cael ei groesawu.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a’r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y canlyniadau perfformiad a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 sydd yn cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu nodi.

(2) BOD safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â pherfformiad Ch3 yn cael eu nodi ac y dylai’r camau adfer a nodwyd gael eu cymeradwyo fel sail i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd.

(3) BOD cynnydd y Cyngor hyd yma wrth fynd i'r afael ag argymhellion presennol a chynigion gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor yn cael eu nodi.

(4) BOD dileu camau gweithredu gorffenedig o Draciwr Insight y Bwrdd Mewnwelediad Strategol, wedi ei lywio gan safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn cael eu cymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni gofynion perfformiad fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn cynyddu ei gyfraniad at gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei argymhellion rheoleiddio a'i gynigion gwella ac yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd drwy raglen Archwilio Cymru o Astudiaethau Llywodraeth Leol cenedlaethol a lleol.

(4) Sicrhau bod Traciwr Insight Bwrdd Mewnwelediad Strategol y Cyngor yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ar argymhellion rheoliadol y Cyngor.

**C294 DEFNYDD O BWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/PA) (CRAFFU – Y GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd â’r diben o hysbysu'r Cabinet ynghylch ymarfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 16 Mawrth, 2023. Dywedodd yr Arweinydd fod llawer o'r defnydd yn ymwneud â derbyn cyllid grant neu gytuno ar gontractau i fwrw ymlaen â materion cyn gynted â phosibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at Barc Sglefrio’r Cnap a dywedodd wrth Aelodau'r Cabinet bod disgwyl iddo gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2023 a dywedodd yr Arweinydd ei fod yn ddelfrydol gan y byddai mewn pryd ar gyfer gwyliau'r ysgol. Byddai sefydliad lleol hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc i addurno waliau'r Parc Sglefrio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at y contract gwasanaethau torri glaswellt tymhorol a bod rhywfaint o'r gwaith yn cael ei ariannu o arian Gorfodi Parcio Sifil, hefyd bod torri glaswellt ond yn digwydd pan oedd angen ac i annog bioamrywiaeth lle bo hynny'n bosibl.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a’r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD defnyddio Pwerau Brys y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

I roi gwybod i'r Cabinet.

**C295 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL STRATEGOL FLYNYDDOL Y CABINET MAI 2023 I EBRILL 2024 A RHAGLENNI GWAITH CHWARTEROL Y CABINET – IONAWR I FAWRTH 2023 AC EBRILL I FEHEFIN 2023 (AG/PA) (CRAFFU – DIM) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am Flaenraglen Waith Strategol Flynyddol y Cabinet / Cyngor ar gyfer y cyfnod o 12 mis o fis Mai 2023 hyd at Ebrill 2024 i hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd hyd yn hyn o ran Rhaglenni Gwaith Chwarterol y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2023 ac i gadarnhau'r Rhaglen Waith Chwarterol ar gyfer Ebrill i Fehefin 2023.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Cynghorydd Wilson fod y hyperddolenni yn yr atodiadau yn ddefnyddiol i aelodau'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig weld pa waith oedd wedi'i gwblhau hyd yn hyn a'i fod wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod a diolchodd i swyddogion am y gwaith sylweddol a gwblhawyd hyd yn hyn.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a’r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Rhaglen Waith Strategol Flynyddol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad ar gyfer y cyfnod Mai 2023 hyd at Ebrill 2024 yn cael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

(2) BOD y diweddariadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer mis Ionawr i fis Medi 2021, sydd ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad, yn cael eu cytuno.

(3) BOD Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet Ebrill i Fehefin 2023, sydd ynghlwm yn Atodiad 3 yr adroddiad, yn cael ei ardystio.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000, is-ddeddfwriaeth a Chyfansoddiad y Cyngor wrth bennu Rhaglenni Gwaith Blynyddol.

(2) Monitro cynnydd.

(3) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Ebrill i Fehefin 2023.

**C296 DIWEDDARIAD 2023 I GYNLLUN CYFLAWNI'R GRANT CYNNAL TAI 2022-2025 (DSCCT) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet o flaenoriaethau'r Grant Cymorth Tai (GCT) wedi'i ddiweddaru a cheisiodd gymeradwyaeth ar gyfer cynllun gwariant GCT 2023-24.
Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddarparu llety brys, gwasanaethau galw heibio yn ystod y dydd, gwasanaethau cyfryngu a chymorth yn ôl yr angen ar gyfer amrywiaeth o bobl gyda rhai enghreifftiau o'r hyn oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer trigolion Bro Morgannwg.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a’r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Diweddariad 2023 i Gynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai 2023-2025 yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD Cynllun Gwariant Grant Cymorth Tai 2023 - 2024 yn cael ei gymeradwyo i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Canllawiau'r Grant Cymorth Tai (GCT)(Cymru) Ebrill 2021.

(2) Sicrhau bod Cynllun Gwariant GCT 2023-2024 wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol ag amodau’r GCT.

**C297 CYNLLUN AILGARTREFU CYFLYM BRO MORGANNWG (DSCCT) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Cynllun Ailgartrefu Cyflym Bro Morgannwg. Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn delio â rhai materion heriol oherwydd y pandemig a newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth digartrefedd. Cynigiwyd cyfeirio'r adroddiad i’r Pwyllgor Craffu ar Dai a Chymunedau Diogel i’w ystyried, gyda’r Arweinydd yn gobeithio y byddai Aelodau eraill o'r Cabinet yn gallu bod yn bresennol a chymryd rhan yn y drafodaeth pe bai'r argymhellion yn cael eu cytuno.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, er mai hi oedd yr Aelod perthnasol o’r Cabinet yn 2012, bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i leihau a dirymu’r angen i ddefnyddio llety gwely a brecwast, ond bod yr amser yn iawn nawr i Graffu ar y mater a chasglu unrhyw sylwadau i'w cyfeirio yn ôl i'r Cabinet fel y bo angen.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a’r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Cynllun Ailgartrefu Cyflym ar gyfer Bro Morgannwg yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i’r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i’w ystyried ac yn amodol ar dderbyn unrhyw newidiadau, y cytunir i gyflwyno'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym i Lywodraeth Cymru.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1a2) Sicrhau bod y Cyngor yn lleihau'r defnydd o lety dros dro ac yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru, sef y byddai gan bob Cyngor yng Nghymru eu Cynllun Ailgartrefu Cyflym eu hunain.

**C298 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036 PAPUR CEFNDIR MATERION, GWELEDIGAETH AC AMCANION (YGCGR) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –**

Cyflwynodd yr Aelod o’r Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet am ganlyniadau'r ymgysylltu a wnaed ar y Weledigaeth a'r Amcanion drafft, a’r Papur Cefndir Materion, Gweledigaeth ac Amcanion o ganlyniad a hefyd i geisio cymeradwyaeth o’r papur fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) sy'n dod i'r amlwg.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y Tîm Polisi Cynllunio wedi cynnal adolygiad o sail dystiolaeth helaeth a nododd ddeg thema lle’r oedd y materion allweddol wedi'u gosod. Byddai'r CDLIN yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r heriau, y cyfleoedd a'r uchelgeisiau ar gyfer yr Awdurdod ar draws cyfnod y Cynllun newydd a byddai'r amcanion yn cynnig mwy o fanylion ynghylch sut gallai'r system gynllunio helpu i gyflawni'r weledigaeth ac ymateb i'r materion allweddol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ym Mro Morgannwg ac yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a’r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Papur Cefndir Materion, Gweledigaeth ac Amcanion, sydd ynghlwm fel Atodiad 2 yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) sy'n dod i'r amlwg.

(2) BOD y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy, mewn ymgynghoriad â'r Aelod o’r Cabinet dros Ymgysylltu Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol, yn cael awdurdod i gytuno ar fformat terfynol ac unrhyw fân newidiadau

teipograffigol a mân ddiwygiadau angenrheidiol i’r Papur Cefndir Materion, Gweledigaeth ac Amcanion, sydd ynghlwm fel Atodiad 2 yr adroddiad, cyn ei gyhoeddi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Yn unol â Chofnod C877 y Cabinet, i gymeradwyo'r Papur Cefndir Materion, Gweledigaeth ac Amcanion fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLIN sy'n dod i'r amlwg.

(2) Gwneud newidiadau teipograffyddol neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb fod angen cael cymeradwyaeth y Cabinet.